

CANLLAWIAU LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER ABSENOLDEBAU CLEIFION MEWNOL O UNEDAU IECHYD MEDDWL NEU ANABLEDDAU DYSGU YN YSTOD COVID-19

Caiff cleifion sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf) adael yr ysbyty lle y maent yn cael eu trin dim ond pan fyddant wedi cael caniatâd i fod yn absennol gan Glinigydd Cyfrifol y claf o dan adran 17.

Ar gyfer cleifion dan gyfyngiadau rhaid i hyn fod o fewn terfynau'r cyfnod absenoldeb y cytunwyd arno gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ni all Clinigwyr Cyfrifol roi caniatâd i fod yn absennol o'r ysbyty i gleifion sydd wedi cael eu remandio i'r ysbyty o dan adrannau 35 neu 36 o'r Ddeddf neu sy'n ddarostyngedig i orchmynion ysbyty interim o dan adran 38; y llys yn unig gaiff roi caniatâd i'r cleifion hyn fod yn absennol.

Mae'r sefyllfa a achoswyd gan y pandemig COVID-19 yn golygu bod angen adolygu'r trefniadau ar gyfer caniatáu absenoldebau adran 17 i gleifion sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), a'u rheoli, yn ogystal ag absenoldebau yn gyffredinol, ar gyfer cleifion anffurfiol. Mae absenoldeb adran 17 yn rhan bwysig o ofal claf gan ei fod yn gam hanfodol tuag at adfer iechyd. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn gyfnod o straen posibl i gleifion, gofalmwr a gwasanaethau a rhaid pwysu a mesur y perygl hwn yn ofalus yn erbyn y budd a ddaw o'r absenoldeb. Rhaid mynd ati mewn modd gofalus a sensitif er mwyn sicrhau y ceir cydbwysedd rhwng asesu'r perygl o gyflwyno COVID-19 i'r ward yn erbyn y perygl sy'n gysylltiedig â gwrthod cyfle pwysig i glaf gymryd camau tuag at adfer ei iechyd.

Mae amcanion y canllawiau hyn fel a ganlyn:

- (a) darparu arweiniad clir i staff, cleifion, eu perthnasau a'u heiriolwyr ym mhob uned cleifion mewnol yng Nghymru o ran caniatáu absenoldebau adran 17 o fewn terfynau diogel
- (b) sicrhau bod yr arfer mewn perthynas â chaniatáu absenoldebau yn gyson ar draws pob uned cleifion mewnol yng Nghymru a'i fod yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru/ Llywodraeth y DU.

Rhaid ystyried y cwestiynau a'r fframweithiau a ganlyn:

- Ai'r opsiwn hwn sy'n cyfyngu lleiaf ar y claf?
- A ydy'r penderfyniad hwn yn cyfaddawdu Hawliau Dynol yr unigolyn?
- A ydy'r penderfyniad yn cyfaddawdu Hawliau Dynol pobl eraill?
- A ydy'r penderfyniad yn cyfyngu ar Hawliau Dynol y claf i raddau pellach na gweddill y boblogaeth ar hyn o bryd?
- A ydy'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu dyletswydd gofal y sefydliad i'r unigolyn, i'w staff ac i'r cyhoedd yn gyffredinol?

Deddf Iechyd Meddwl (1983) - Cod Ymarfer Cymru 2016 (Diwygiedig)

Mae'r Cod yn argymhell na ddylid cael cyfyngiadau cyffredinol ac y dylid dilyn yr opsiwn sy'n cyfyngu'r lleiaf ar y claf bob amser

Deddf Hawliau Dynol (1998):

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn hawliau'r unigolyn fel dinesydd yn y Deyrnas Unedig. Mae Erthyglau 2: Yr hawl i fywyd; 3: Gwahardd arteithio a thriniaeth annynol a diraddiol; 5: Yr hawl i ryddid a

diogelwch, ac 8: Yr hawl i bywyd teuluol, yn arbennig o berthnasol wrth ystyried absenoldeb o dan amgylchiadau arferol.

Dyletswydd Gofal

Mae gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a Gofal Cymdeithasol ddyletswydd i weithredu er budd gorau'r claf. Mae'r ddyletswydd honno'n berthnasol i staff ac i'r cyhoedd hefyd. Ceir tystiolaeth fod gan gyfran sylweddol o'r bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu broblemau iechyd corfforol cydafiach a fyddai'n eu rhoi mewn mwy o berygl o gael salwch difrifol pe byddent yn dal COVID-19 (e.e. gordewdra, diabetes).

Mesurau Iechyd Cyhoeddus presennol

Mae'r claf wedi'i gyfyngu gan y mesurau presennol i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn yr un modd â'r gweddill o'r boblogaeth.

Deddfwriaeth frys:

Gallai rhai elfennau o'r ddeddfwriaeth frys a basiwyd fel rhan o Ddeddf y Coronafeirws (2020) gael effaith anuniongyrchol ar y canllawiau hefyd.

Y canllawiau ar gyfer pob claf mewnol:

- Dylai'r tîm amlddisgyblaethol ystyried trothwy mewn perthynas â rhyddhau claf mewnol o'r ysbyty a'r ffactorau y mae'n rhaid eu bodloni/arddangos i gyflawni hynny cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Gellir caniatáu i glaf fynd y tu allan i safle a thir yr ysbyty erbyn hyn, a *gallai* hynny gynnwys mynd i'r mannau hynny sydd ar gael i'r cyhoedd. Ond, rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail nifer o ffactorau:
 - amgylchedd/lleoliad ffisegol y ward/ysbyty
 - y math o amgylchedd (e.e. adsefydlu, aciwt)
 - gwerth therapiwtig
 - pa mor agored i niwed y mae'r claf
 - statws y ward o ran COVID
 - gallu'r claf i gydymffurfio â chynghor Llywodraeth Cymru – efallai y bydd angen asesu gallu'r unigolyn
 - statws y lle y bydd y claf yn mynd iddo mewn perthynas â COVID.
- Caiff absenoldeb ei ganiatáu yn unol â chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru – dalier sylw, y gallai'r cynghor hwnnw amrywio yn ôl amser a lleoliad
 - cadw pellter o 2m (6 throedfedd) oddi wrth unrhyw un nad ydynt yn byw yn eich 'cartref' (ward yn yr achos hwn), er gwaethaf anghenion cymorth rhai pobl
 - rhaid cynnig gorchuddion wyneb i gleifion os ydynt yn debygol o fod mewn amgylchedd lle na allant gadw pellter o 2m yn rhwydd
 - dylid ystyried yr egwyddor 'os byddwch yn cyfarfod ag aelod(au) o aelwyd arall, dylech gyfarfod yn yr awyr agored ac aros yn lleol' a chydymffurfio â honno cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- Dylai oriau'r absenoldeb gael eu caniatáu ar sail cyflwyniad clinigol y claf a'i allu i gydymffurfio â'r cynghor.
- Bydd yr asesiad risg mewn perthynas ag absenoldeb claf sy'n cael ei hebrwng/nad yw'n cael ei hebrwng yn cynnwys asesu gallu'r unigolyn i ddeall a chofio'r amodau uchod a chydymffurfio â nhw, e.e. cadw pellter o 2m oddi wrth bobl eraill.

- Ni ddylai unrhyw un rannu car â rhywun arall oni bai bod gofyniad clinigol i wneud hynny (gweler hefyd y Canllawiau ar gludiant o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chyfarpar diogelu personol, 27.3.20)
- Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus iawn o hyd cyn caniatáu i glaf ddychwelyd adref, a dylai'r ystyriaeth honno gynnwys asesu anghenion pobl eraill yng nghartref yr unigolyn, gan gynnwys y rheini sy'n gwarchod eu hunain/mewn mwy o berygl o gael salwch difrifol o ganlyniad i COVID, a ffactorau ymarferol fel sut y bydd yr unigolyn yn siopa, yn casglu meddyginiaethau etc.
- Dylai cleifion sydd ar fin gadael yr uned am gyfnod o absenoldeb gael eu cynghori ynghylch y camau sgrinio (i'w dilyn) a gaiff eu cymryd pan fyddant yn dychwelyd i'r uned.
- Rhaid sicrhau bod modd cysylltu dros y ffôn ag unrhyw unigolion sydd ar gyfnod o absenoldeb ar hyn o bryd ac y mae disgwyl iddynt ddychwelyd i'r uned, er mwyn sicrhau cyn iddynt ddychwelyd nad ydynt wedi datblygu un neu fwy o symptomau newydd sy'n cynnwys peswch cyson, gwres uchel neu anosmia.
- Rhaid gofyn yr un cwestiynau i unrhyw rai sy'n dychwelyd i'r ward yn annisgwyl, neu heb fod wedi'u cysylltu dros y ffôn eto , **cyn** iddynt fynd i'r uned.
- I unrhyw un sydd wedi bod ar gyfnod o absenoldeb ac sy'n dychwelyd i'r ward, mae'r canlynol yn berthnasol:
 - rhaid iddynt olchi eu dwylo/defnyddio hylif glanweithio ar eu dwylo cyn gadael a chyn gynted y byddant yn dychwelyd i'r ward
 - dylent gael eu harsylwi ar unwaith (yn enwedig o ran cymryd eu tymheredd) wrth gyrraedd y ward dylent gael eu hannog i newid a golchi eu dillad, yn enwedig os byddant wedi bod i ardal boblog iawn.
- Dylai unrhyw un sy'n datblygu symptomau ar ôl dychwelyd o absenoldeb hunanynysu ar unwaith, a dylid dilyn y llwybr perthnasol ar gyfer achosion posibl o'r feirws.
- Rhaid i bob uned gael manau dynodedig i gleifion hunanynysu, ar gyfer y rheini â symptomau'r feirws sydd naill ai ar y ward neu'n dychwelyd o gyfnod o absenoldeb. Rhaid i'r manau hynny fodloni anghenion a gofynion y cleifion yn llawn.
- Dylid cadw golwg ar gleifion sydd ar absenoldeb 'hirdymor', neu ar absenoldeb gyda'r bwriad o gael eu rhyddhau o'r ysbyty, yn y gymuned ac ni ddylent ddychwelyd i'r wardiau ar gyfer adolygiad (oherwydd y perygl cynyddol o groes-heintio). Dylid cynnal adolygiad ar gyfer unrhyw un ar absenoldeb 'hirdymor' o dan adran 17 cyn gynted ag y bo modd, gyda'r bwriad o'i ryddhau o'r ysbyty/gyda gorchymyn triniaeth gymunedol.
- Cyn gynted ag y bydd rhywun yn feddyliol iach ac yn sefydlog; dylid ystyried ei ryddhau yn gynnar a datblygu/diweddaru cynllun gofal i nodi'r cymorth perthnasol.
- Dylid caniatáu absenoldeb i fynd i apwyntiadau meddygol hanfodol na ellir eu cynnig ar y ward.
- Gallai fod angen canslo holl absenoldebau adran 17 yn anffodus (ac eithrio i fynd i apwyntiad meddygol neu ddeintyddol) os bydd cyfnod o gyfyngiadau symud.
- O ran profion antigenau (swab) ar gyfer y coronafeirws
- Dylai'r cleifion hynny sy'n gadael y ward heb ganiatâd, pa un a ydynt yn gleifion dan gadwad neu beidio, gael eu rheoli yn yr un modd pan fyddant yn dychwelyd i'r ward.